

Cyfeirnod yr ymgynghoriad: WG23953

## Ffurflen Ymateb i Ymgynghoriad

# Newidiadau arfaethedig i'r Rheoliadau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol a Gorchmynion Datblygu Lleol

Hoffem glywed eich sylwadau ar ein cynigion i newid y Rheoliadau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol a Gorchmynion Datblygu Lleol.

***Dylech gyflwyno'ch sylwadau erbyn 18/06/2015.***

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymgynghoriad hwn, anfonwch e-bost at: [planconsultations-f@wales.gsi.gov.uk](mailto:planconsultations-f@wales.gsi.gov.uk) neu ffoniwch Alan Groves ar 029 2082 5362

Diogelu Data
<p>Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.</p> <p>Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl o dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd yn rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.</p>

Cyfeirnod yr ymgynghoriad: WG23953

<b>Newidiadau arfaethedig i'r Rheoliadau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol a Gorchmynion Datblygu Lleol</b>		
<b>Dyddiadau'r cyfnod ymgynghori: 26/03/2015 – 18/06/2015</b>		
<b>Enw</b>	Rhian Jardine	
<b>Sefydliad</b>	Cyfoeth Naturiol Cymru	
<b>Cyfeiriad</b>	Tŷ Cambria 29, Heol Casnewydd Caerdydd CF24 0TP	
<b>Cyfeiriad E-bost</b>	rhian.jardine@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk	
<b>Math</b> ( <i>dewiswch un o blith yr isod</i> )	Busnesau/ Ymgynghorwyr	<input type="checkbox"/>
	Awdurdod Cynllunio Lleol	<input type="checkbox"/>
	Asiantaeth Llywodraeth/Sector Cyhoeddus arall	<input checked="" type="checkbox"/>
	Cyrff Cyhoeddus/Grwpiau Buddiant	<input type="checkbox"/>
	Sector gwirfoddol (grwpiau cymunedol, gwirfoddolwyr, grwpiau hunangymorth, sefydliadau cydweithredol, mentrau cymdeithasol, sefydliadau crefyddol a sefydliadau dielw)	<input type="checkbox"/>
	Arall (grwpiau eraill heb eu rhestru uchod) neu unigolyn	<input type="checkbox"/>

<b>C1</b>	Ydych chi'n cytuno bod y trothwyon sgrinio ar gyfer prosiectau datblygu trefol a prosiectau stadau diwydiannol, fel y'u gosodir yn Atodlen 2 o'r Rheoliadau EIA, yn rhy isel?	Ydw	Nac ydw
		<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

**Sylwadau:**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi'r trothwyon diwygiedig mewn egwyddor. Rydym yn cydnabod bod gan rai prosiectau sy'n ddarostyngedig i Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ddatganiadau ategol gor-gymhleth sydd ar brydiau'n ddiangen. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n dymuno gweld proses effeithlon o asesu sy'n gymesur ag effeithiau'r datblygiad arfaethedig. Fodd bynnag, dyma ein cyngor ni, os bydd y trothwyon sgrinio yn cael eu cynyddu, bydd yn bwysig nodi canllawiau clir i Awdurdodau Cynllunio Lleol y dylai'r holl effeithiau amgylcheddol, gan gynnwys effeithiau cronrus, hefyd gael eu hasesu'n drylwyr a'u hystyried wrth wneud penderfyniadau, heb ystyried yr angen am Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol. Byddem yn hapus i roi cyngor ar sicrhau geiriad addas mewn unrhyw ganllawiau yn y dyfodol. Heb hyn, mae perygl na fyddai rhai prosiectau bach, ond amgylcheddol niweidiol, yn cael eu hasesu'n briodol o ganlyniad i'r trothwy sgrinio uwch.

Mae cadw'r ymrwymiad ym mharagraff 15 i sgrinio pob 'prosiect datblygu trefol' Atodlen 2 sydd wedi'i leoli mewn 'ardal sensitif', waeth beth yw ei faint, yn cael ei groesawu. Rydym yn cynghori y dylid sgrinio prosiectau hefyd ar gyfer pob prosiect a leolir yn rhannol o fewn ardal sensitif. Byddem hefyd yn croesawu ymrwymiad clir bod y rheoliadau newydd yn gofyn bod pob 'prosiect ystâd ddiwydiannol' Atodlen 2 sydd wedi'i leoli mewn ardal sensitif yn cael eu sgrinio. Mae darpariaethau tebyg eisoes mewn grym yn Lloegr (ers 6 Ebrill, 2015). Bydd gosod y trothwyon diwygiedig yn rhoi Cymru yn yr un sefyllfa â Lloegr.

Er ein bod yn croesawu'r cynigion i sgrinio pob prosiect datblygu trefol Atodlen 2 sydd wedi'i leoli o fewn ardal sensitif, rydym yn cynghori y gall prosiectau datblygu trefol ac ystadau diwydiannol y tu hwnt i ardaloedd sensitif hefyd achosi effeithiau sylweddol tebygol ar leoliad rhai ardaloedd sensitif fel Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd

Cyfeirnod yr ymgynghoriad: WG23953

o Harddwch Naturiol Eithriadol. Rydym yn cynghori bod y Gyfarwyddeb Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol a dyfarniadau gan Lys Ewrop yn nodi bod Erthygl 2(1) yn datgan "os yw prosiectau sydd, yn rhinwedd pethau eraill yn ymwneud â'u natur, maint neu leoliad; yn debygol o gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd, dylent fod yn ddarostyngedig i asesiad effaith". Mae Cyfoeth Naturiol Cymru, felly, o'r farn y dylid ystyried effeithiau posibl prosiect datblygu ar ardaloedd sensitif yn ystod y cyfnod sgrinio, waeth a yw'r prosiect arfaethedig "... o fewn, neu'n rhannol o fewn ..." yr ardal sensitif a ddiffiniwyd.

Mae sgrinio am effeithiau sylweddol tebygol, fel bod yr holl effeithiau amgylcheddol posibl ar ardaloedd sensitif sy'n codi o ddatblygiad yn cael eu hasesu'n briodol, yn sicrhau y parheir i ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru pan fo Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn ofynnol, a gallwn gynghori ar y warchodaeth briodol ar gyfer yr amgylchedd naturiol, yn unol â pholisi a deddfwriaeth berthnasol.

<b>C2</b>	Ydych chi'n cytuno gyda ein trothwyon sgrinio arfaethedig ni?	Ydw	Ydw (gyda sylwadau pellach)	Nac ydw
		<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

**Sylwadau:**

Nid oes gennym sylwadau pellach yma.

<b>C3</b>	A oes gennych unrhyw sylwadau am y dull sy'n cael ei gynnig i fynd i'r afael â newidiadau neu estyniadau i ddatblygiadau sy'n dod o dan Atodlen 2?	Oes	Nac oes
		<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

**Sylwadau:**

Mae'r newidiadau arfaethedig yn adlewyrchu cyfraith achosion ddiweddar (dyfarniad Baker) a chefnogwn y ddarpariaeth hon. Bwriad y ddarpariaeth yw diwygio paragraff 13 (a) (i) o Atodlen 2 o Reoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol fel bod cyfeiriadau at drothwyon yn berthnasol i'r datblygiad cyfan, fel y'u haddaswyd gan y newid neu estyniad, nid dim ond y newid neu'r estyniad ei hun.

<b>C4</b>	A oes gennychunrhyw sylwadau am y dull sy'n cael ei gynnig i fynd i'r afael â newidiadau neu estyniadau i ddatblygiadau sy'n dod o dan Atodlen 1?	Oes	Nac oes
		<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

**Sylwadau:**

Mae'r cynigion hyn hefyd yn adlewyrchu cyfraith achosion ddiweddar (dyfarniad Baker) ac rydym yn cefnogi'r cynigion mewn egwyddor. Fodd bynnag, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried bod angen arweiniad pellach er mwyn darparu eglurder a sicrwydd ynghylch pa wybodaeth ddylai fod yn ofynnol gan ymgeiswyr yn y cam sgrinio i alluogi'r sawl sy'n penderfynu i farnu ar debygolrwydd effeithiau amgylcheddol sylweddol. Os na cheir arweiniad, teimlwn y bydd peth amwysedd ynghylch a fydd digon o wybodaeth yn y cam sgrinio i alluogi awdurdod cynllunio lleol i lunio barn ar arwyddocâd effeithiau.

Cyfeirnod yr ymgynghoriad: WG23953

<b>C5</b>	A oes gennych unrhyw sylwadau ar y cynnig i ddiwygio'r Rheoliadau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol i'w gwneud yn ofynnol i roi rhesymau am bob barn sgrinio a chyfarwyddyd sgrinio?	Oes	Nac oes
		<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

**Sylwadau:**  
 Rydym yn cefnogi'r cynnig hwn gan ei fod yn darparu tryloywder wrth wneud penderfyniadau. Mae tryloywder wrth wneud penderfyniadau yn un o werthoedd allweddol Cyfoeth Naturiol Cymru. Yn ein barn ni, mae'r gofynion newydd yn helpu i wella disgwyliad presennol o rôl Awdurdodau Cynllunio Lleol.

<b>C6</b>	Yn achos cais dilynol (cais ar gyfer materion a gadwyd yn ôl) lle darparwyd datganiad amgylcheddol gyda'r cais amlinellol gwreiddiol sy'n parhau i fod yn addas i'r diben, a ydych yn cytuno nad oes gwerth ailadrodd y broses o ymgynghori'n gyhoeddus?	Ydw	Ydw (yn amodol ar sylwadau pellach)	Nac ydw
		<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

**Sylwadau:**  
 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cefnogi'r ddarpariaeth hon mewn egwyddor. Cytunwn nad oes fawr o werth mewn gofyn am gyflwyno Datganiad Amgylcheddol pellach a mynd trwy ymarfer ymgynghori cyhoeddus pellach pan fo digon o fanylion wedi eu darparu yn y cam amlinellol. Fodd bynnag, byddem yn argymhell bod canllawiau yn cael eu paratoi er mwyn darparu eglurder a sicrwydd ynghylch pryd y byddai'n ofynnol cael ymgynghoriad cyhoeddus pellach er enghraifft os nad oes digon o wybodaeth wedi'i darparu yn y cam amlinellol, os oes gwybodaeth bellach wedi dod i law neu os nad yw'r senario wedi ei nodi o fewn Amlen Rochdale yn y cam amlinellol.

<b>C7</b>	A oes gennych unrhyw sylwadau ar y dull arfaethedig o weithredu'r Gyfarwyddeb Storio Daearegol?	Oes	Nac oes
		<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>

**Sylwadau:**  
 Nid oes gennym unrhyw sylwadau ynghylch y cynnig hwn.

<b>C8</b>	A ydych yn cytuno y dylid diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 a'r Rheoliadau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol er mwyn galluogi i Orchmynion Datblygu Lleol roi caniatâd	Ydw	Ydw (yn amodol ar sylwadau pellach)	Nac ydw

Cyfeirnod yr ymgynghoriad: WG23953

cynllunio i ddatblygiadau sy'n dod o dan Atodlen 2?	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
---	--------------------------	-------------------------------------	--------------------------

**Sylwadau:**  
 Rydym yn croesawu'r ddarpariaeth hon mewn egwyddor yn amodol ar fesurau diogelu priodol ac ar yr amod bod yr amodau ar Orchmynion Datblygu Lleol yn cael eu gorfodi'n briodol. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod y broses ymgynghori sy'n arwain at fabwysiadu Gorchmynion Datblygu Lleol lle mae datblygiad Atodlen 2 yn cael ei chynnwys yn aneglur ac rydym yn argymhell y dylid darparu mwy o fanylion am y trefniadau ymgynghori hyn ac y dylai hyn gael ei nodi'n glir yn y rheoliadau. Er ein bod yn nodi y bydd cyfyngiadau ac amodau ynghlwm wrth Orchmynion Datblygu Lleol, nid yw'n glir i ni beth yw'r trefniadau gweithdrefnol pan fo newidiadau neu estyniadau yn cael eu cynnig i Atodlen 2 ar ôl i Orchmynion Datblygu Lleol sy'n rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad Atodlen 2 gael ei fabwysiadu. Teimlwn y dylai'r rheoliadau egluro pa newidiadau, os o gwbl, a ganiateir dan yr amgylchiadau hyn.

<b>C9</b>	A oes gennych unrhyw sylwadau ar y cynnig i atal cyflwyno gorchmynion addasu ar gyfer datblygiad sy'n destun Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol oni bai bod Datganiad Amgylcheddol gyda'r gorchymyn a bod hynny'n cael ei ystyried wrth wneud neu gadarnhau'r gorchymyn?	<b>Oes</b>	<b>Nac oes</b>
		<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

**Sylwadau:**  
 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn croesawu'r cynnig hwn mewn egwyddor gan fod y cynnig hwn yn adlewyrchu dyfarniad Smout v Gweinidogion Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, rhif Achos C1 / 2011/0188 sy'n rhoi ar ddeall bod gorchmynion addasu yn cynnwys datblygu at ddibenion y Gyfarwyddeb EIA, lle y gallai Gorchymyn Addasu a wneir gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol arwain at ddatblygiad a allai o bosibl achosi effeithiau amgylcheddol sylweddol.

<b>C10</b>	A oes gennych unrhyw sylwadau ar y cynnig i atal cyflwyno gorchmynion dirwyn i ben ar gyfer datblygiad sy'n destun Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol oni bai bod Datganiad Amgylcheddol gyda'r gorchymyn a bod hynny'n cael ei ystyried wrth wneud neu gadarnhau'r gorchymyn?	<b>Oes</b>	<b>Nac oes</b>
		<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

**Sylwadau:**  
 Rydym yn croesawu'r cynnig hwn gan y bydd yn atal cadarnhau neu wneud gorchmynion dirwyn i ben lle bont yn debygol o gael effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd. Rydym hefyd yn croesawu'r ddarpariaeth i atal gwneud neu gadarnhau gorchymyn oni bai bod y drefn yn ystyried y datganiad amgylcheddol. Fodd bynnag, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynghori y dylid rhoi ar ddeall, os ceir amgylchiadau lle mae angen rhagor o wybodaeth i lenwi bylchau mewn Datganiadau Amgylcheddol, na ddylid cadarnhau neu wneud gorchmynion dirwyn i ben hyd nes y darperir gwybodaeth bellach er boddhad y penderfynwr.

Cyfeirnod yr ymgynghoriad: WG23953

C11	A oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol ar y papur ymgynghori?	Oes	Nac oes
		<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

**Sylwadau:**  
Rydym yn croesawu mewn egwyddor y prif newidiadau i'r Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol, yn enwedig y cynnydd mewn tryloywder ynghylch rhesymau am y penderfyniadau sgrinio.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried y dylid diweddarau meini prawf Atodlen 2 i ryw raddau er mwyn cynnwys sylwadau am dechnoleg newydd ac arloesol. Mae gennym brofiad o broblemau wrth geisio penderfynu pa ran o Atodlen 2 y mae prosiectau penodol yn gymwys iddi. Er enghraifft, cododd y broblem hon gyda chais am fferm solar, lle nad oedd yn glir pa feini prawf y dylid eu defnyddio yn Atodlen 2 o Reoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol. Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn barod i helpu gydag unrhyw adolygiad o gategoriâu ar gyfer Atodlen 2 yn y dyfodol.

Hefyd rydym yn ailadrodd yma ac yn cydnabod bod gan rai prosiectau sy'n ddarostyngedig i Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ddatganiadau ategol sy'n or-gymhleth weithiau. Er ein bod mewn egwyddor yn cefnogi cynnydd mewn trothwyon sgrinio, mae hyn yn amodol ar ein cyngor, ar gyfer prosiectau llai nad ydynt yn destun Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, y bydd yn bwysig i nodi canllawiau clir i Awdurdodau Cynllunio Lleol y dylai'r holl effeithiau amgylcheddol, gan gynnwys effeithiau cronrus, hefyd gael eu hasesu'n drwyadl a'u hystyried wrth wneud penderfyniadau. Byddem hefyd yn falch o roi cyngor ar eiriad addas ar gyfer unrhyw ganllawiau yn y dyfodol. Heb hyn, mae perygl na fyddai rhai prosiectau bach, ond sy'n amgylcheddol niweidiol, yn cael eu hasesu'n briodol o ganlyniad i'r trothwy sgrinio uwch.

Hefyd, rydym yn ailadrodd yma, er ein bod yn croesawu'r cynigion i sgrinio pob prosiect datblygu trefol Atodlen 2 sydd wedi'u lleoli o fewn ardaloedd sensitif, rydym yn cynghori bod modd i brosiectau datblygu trefol ac ystadau diwydiannol sydd y tu hwnt i ardaloedd sensitif hefyd achosi effeithiau sylweddol tebygol ar leoliad rhai ardaloedd sensitif megis Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. Rydym yn cynghori bod y Gyfarwyddeb Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol a dyfarniadau gan Lys Ewrop yn nodi bod Erthygl 2 (1) yn datgan "os yw prosiectau sydd, yn rhinwedd pethau eraill yn ymwneud â'u natur, maint neu leoliad; yn debygol o gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd, dylent fod yn ddarostyngedig i asesiad effaith". Mae Cyfoeth Naturiol Cymru, felly, o'r farn y dylid ystyried effeithiau posibl prosiect datblygu ar ardaloedd sensitif yn ystod y cam sgrinio, waeth a yw'r prosiect arfaethedig "... o fewn, neu'n rhannol o fewn..." yr ardal sensitif a ddiffiniwyd.

Rydym yn nodi'r bwriad i gyhoeddi ymgynghoriad ar wahân ar y Gyfarwyddeb EIA 2014/52/UE newydd fel y'i mabwysiadwyd gan Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 16 Ebrill 2014, a byddem yn croesawu cyfle i gyfarfod er mwyn trafod cwmpas a manylder y ddogfen ymgynghori gyda hyn.

Nid wyf eisiau i fy enw / fy nghyfeiriad gael eu cyhoeddi gyda fy ymateb (ticiwch y blwch) <input type="checkbox"/>
---

Cyfeirnod yr ymgynghoriad: WG23953

**Sut i Ymateb**

**Anfonwch eich sylwadau atom mewn unrhyw un o'r ffyrdd isod:**

<b>E-bost</b>
Llenwch y ffurflen ymgynghori a'i hanfon i: <a href="mailto:planconsultations-f.@cymru.gsi.gov.uk">planconsultations-f.@cymru.gsi.gov.uk</a>
<b>Post</b>
Llenwch y ffurflen ymgynghori a'i hanfon i: <b>Cangen Rheoli Datblygiadau Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cynulliad Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ</b>
<b>Gwybodaeth Ychwanegol</b>
Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymgynghoriad hwn anfonwch e-bost at: <a href="mailto:planconsultations-f.@cymru.gsi.gov.uk">planconsultations-f.@cymru.gsi.gov.uk</a> neu ffoniwch Alan Groves ar 029 20825362